Care & Repair
Gofal a Thrwsio

# BWRDD YMDDIRIEDOLWYR

## Pecyn Recriwtio



# CYNNWYSS


| | |
|---|---|
| AMDANOM NI | 1 |
| EIN BWRDD | 2 |
| PROFFIL RÔL AELOD BWRDD | 3 |
| MANYLEB PERSON | 7 |
| SUT I WNEUD CAIS | 8 |




# AMDANOM NI

**Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig ac ef yw corff cenedlaethol Gofal a Thrwsio yng Nghymru.**

Rydym yn credu'n angerddol yn hawliau pobl hŷn i cael cartref gweddus ac i fyw'n annibynnol cyhyd ag y dymunant. Drwy ymchwil, ymgyrchu dros wella polisi y llywodraeth a gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, rydym yn hyrwyddo anghenion tai pobl hŷn yng Nghymru.

Mae Care & Repair Cymru yn eirioli ar ran pobl hŷn sy'n byw mewn tai gwael ac yn cefnogi'r 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio ar draws Cymru i ddarparu eu gwasanaethau rheng-flaen ar draws ein holl gymunedau. Gwnawn hyn drwy:

- Rhoi llais cenedlaethol cryf mewn datblygu polisi gwell
- Gwerthuso a rhannu deilliannau a'r effaith ar gyfer cyllidwyr
- Hyrwyddo cyllid refeniw craidd a chyfalaf cyson a chynyddol
- Arloesi syniadau newydd a cheisio cyllid prosiect
- Rhannu arfer da ar draws y mudiad Gofal a Thrwsio
- Hwyluso hyfforddiant gweithlu a sicrwydd ansawdd, ac
- Arbenigedd marchnata a chyfathrebu.

**Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Care & Repair Cymru ac ymdrechwn i sicrhau Bwrdd mwy amrywiol. Croesawn geisiadau gan grwpiau a dan-gynrychiolir fel bod ein Bwrdd ymddiriedolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau lleol ar draws Cymru.**

# EIN BWRDD

**Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr neu Fwrdd trosolwg gan Care & Repair Cymru a phob un o'r 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio, gan sicrhau tryloywder, cywirdeb a llywodraethiant da.**

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Care & Repair Cymru yn cynnwys:

- Hyd at naw aelod etholedig annibynnol ar draws llywodraeth leol, sefydliadau academaidd, mudiadau gwirfoddol, cymdeithasau tai ac aelodau unigol, a
- Hyd at ddau aelod a benodwyd o Fyrddau yr 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio (fel arfer y Cadeirydd neu Is-gadeirydd), a
- Hyd at dri o Gynghorwyr Bwrdd a gaiff eu cyfethol.

Mae hefyd swyddi arsylwyr ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Panel Technegol yr Awdurdod Lleol a Choleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol.

Mae Bwrdd Care & Repair Cymru yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn gyfrifol am reoli materion busnes Care & Repair Cymru, yn cynnwys: gosod polisi, gosod targedau, monitro perfformiad a goruchwylio rheolaeth ariannol a chyfrifoldebau cyfreithiol.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn ymddiriedolwyr yr elusen ac yn gyfarwyddwyr anweithredol y cwmni. Caiff y termau Ymddiriedolwyr ac Aelod Bwrdd eu defnyddio i olygu'r un peth yn y ddogfen hon a dogfennau cysylltiedig.

## Ymrwymiad Amser

Amcangyfrifir ar **6-8 diwrnod y flwyddyn**, i gynnwys cyfarfodydd chwarterol ynghyd â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfodydd Cyffredinol Arbennig, ynghyd â dyddiau Cwrdd i Ffwrdd achlysurol, hyfforddiant, cysylltiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau eraill; efallai y byddwch hefyd yn dymuno gwasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid a Risg neu Grwpiau Llywio Prosiect.

# PROFFIL SWYDD AELOD BWRDD

## Diben y Swydd

**Mae'r Bwrdd cyfan gyda'i gilydd yn gyfrifol am sicrhau llwyddiant Care & Repair Cymru a sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda phob gofyniad cyfreithiol a rheoliadol drwy gyfarwyddo a goruchwylio ei fusnes.**

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli materion busnes Care & Repair Cymru mewn:

- Staffio ac adnoddau dynol
- Gosod polisi
- Gosod targedau a monitro perfformiad
- Ymarfer rheolaeth ariannol a rheoli risg
- Goruchwylio cyfrifoldebau cyfreithiol.

## Cyfrifoldebau allweddol y Bwrdd:

- Gosod cyfeiriad strategol ac amcanion tymor canol a hirdymor Care & Repair Cymru a phenderfynu ar ei werthoedd a strategaeth gorfforaethol
- Sicrhau sefydlogrwydd cyfansoddiadol a llywodraethiant cywir y sefydliad
- Sicrhau fod gan y sefydliad yr adnoddau mae eu hangen (yn cynnwys adnoddau dynol) i'w alluogi i gyflawni ei amcanion a chytuno ar ddirprwyo awdurdod i staff lle'n briodol
- Bod yn gyflogwr da, gan ddal staff uwch i gyfrif tra'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni amcanion
- Mesur ac adolygu perfformiad Care & Repair Cymru
- Gweithredu rheolaeth ariannol gadarn a chadw hyfywedd ariannol tra'n cyflawni amcanion y sefydliad
- Rheoli risg ariannol a diogelu llesiant ariannol y sefydliad.

## Cyfrifoldebau Allweddol Aelodau Bwrdd

Gweithredu dyletswyddau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr (fel y'u diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006) a dyletswyddau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr fel yr amlinellir yn Neddf Elusennau 2011:

- Sicrhau fod yr Elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd
- Cydymffurfio gyda'r gyfraith a'r ddogfen lywodraethu
- Gweithredu er budd yr Elusen, ei buddiolwyr ac osgoi gwrthdaro diddordeb
- Gweithredu gofal cywir, gallu, diwydrwydd a gofal (a elwir weithiau yn ddyletswydd darbodaeth e.e. osgoi agored yr Elusen i risg gormodol)
- Diogelu eiddo yr Elusen
- Gweithredu ar y cyd, a
- Pheidio elwa yn ariannol.



## Cyfrifoldebau allweddol Aelodau Bwrdd:

**Yn benodol, yng nghyswllt strategaeth:**

- Gosod cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion strategol a pholisïau lefel uchel ar gyfer y sefydliad
- Cyfrannu at sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo polisïau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion hynny
- Cynnal a hyrwyddo polisïau, diben, gwerthoedd ac amcanion craidd y sefydliad
- Cymeradwyo polisïau allweddol i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

**Yn benodol, yng nghyswllt cyfansoddiad a llywodraethiant:**

- Gweithredu'n rhesymol a bob amser er budd gorau y sefydliad a chydymffurfio gyda'i god ymddygiad; i sicrhau fod eich ymddygiad fel Aelod Bwrdd yn modelu gwerthoedd y sefydliad
- Cyfrannu at a rhannu cyfrifoldeb am benderfyniadau'r Bwrdd ac unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd yr ydych yn aelod ohonynt.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Prif Weithredwr a'r tîm staff
- Bodloni eich hun y caiff busnes yr Elusen eu cynnal yn gyfreithiol ac yn unol â gofynion rheoleiddiol ac yn unol â safonau a dderbynnir yn gyffredinol o berfformiad a chywirdeb
- Sicrhau y caiff risgiau sylweddol y mae'r sefydliad yn agored iddynt eu hadolygu'n rheolaidd ac y cynhelir fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg
- Ar y cyd i gymeradwyo lefelau priodol o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y Prif Weithredwr. Cymryd rhan ym mhenodiad y Prif Weithredwr, a lle bo angen ei symud o'r swydd, ac mewn cynllunio olyniaeth
- Ymgysylltu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol fel sydd angen
- Cydymffurfio'n llawn gyda chyfansoddiad y sefydliad yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a rheolau sefydlog.

**Yn benodol, yng nghyswllt rheolaeth ariannol:**

- Bodloni eich hun am gywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod trafodion ariannol yn cael eu cyfrifo'n systematig a'u harchwilio
- Cymeradwyo cyfrifon pob blwyddyn cyn eu cyhoeddi a gymeradwyo cyllideb a chynllun busnes pob blwyddyn.

**Yn benodol, yng nghyswllt monitro perfformiad a rheolaeth:**

- Sicrhau fod dulliau priodol, yn fewnol ac allanol, i wirio fod y bwrdd yn derbyn darlun cytbwys a chywir o sut mae'r sefydliad yn perfformio
- Sicrhau y caiff mesurau rheoli a systemau mewnol eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd
- Monitro perfformiad ar lefel strategol yng nghyswllt cynlluniau, cyllidebau, mesurau rheoli a phenderfyniadau
- Cymryd rhan mewn adolygiadau rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ac wrth werthuso Aelodau Bwrdd; cymryd rhan yn natblygiad a hyfforddiant y Bwrdd ac mewn gweithgareddau dysgu eraill fel sydd angen.

**Cyfyngiadau swydd:**

- Mae Aelodau Bwrdd yn gyfrifol bob amser am weithredu er budd gorau Care & Repair Cymru yn ei gyfanrwydd ac i beidio hyrwyddo buddiannau unrhyw grŵp neu asiantaeth neilltuol, lle mae'r budd hwnnw yn gwrthdaro gyda budd y sefydliad
- Nid oes gan unrhyw Aelod Bwrdd unigol, yn cynnwys y Cadeirydd, yr awdurdod, os nad yw'n gweithredu'n benodol ar ran y bwrdd gydag awdurdod dirprwyedig y bwrdd. Ar y cyd mae gan Aelodau Bwrdd awdurdod, yn unigol nid oes ganddynt.
- Gwaith y Prif Weithredwr yw rhedeg y sefydliad. Mater i'r bwrdd yw rhoi cyfeiriad i'r Prif Weithredwr ar flaenoriaethau strategol ac yna i'w gefnogi/chefnogi i berfformio'n dda a chyflawni ar y blaenoriaethau a osodwyd. Mae'n rhaid parchu'r ffin rhwng y swyddi llywodraethiant a rheoli ac egluro hynny lle bynnag mae angen.

# MANYLEB PERSON

**Mae'n rhaid i Aelodau Bwrdd weithio o fewn 'Egwyddorion Nolan' sy'n nodi'r ffyrdd y dylai deiliaid swydd gyhoeddus ymddwyn wrth gyflawni eu dyletswyddau.**

## Profiad a sgiliau

Edrychwn am bobl a all ddangos llawer
(ond nid o reidrwydd y cyfan) o'r dilynol:

| | |
|---|---|
| **Ymwybyddiaeth strategol** | Gwybod am y cyd-destun cyfredol a allai effeithio ar y dyfodol.<br>Gwybod am yr adnoddau mewnol sydd ar gael i'r sefydliad a'r ffordd orau i'w defnyddio.<br>Medru codi uwchben problemau penodol i weld y darlun ehangach. |
| **Gwybodaeth leol/ ranbarthol** | Deall yr amgylchedd gweithredu a'r heriau a'r cyfleoedd ar draws Cymru, gallu cyfrannu at safbwynt Cymru gyfan yn nhrafodaethau'r Bwrdd. |
| **Parodrwydd am newid ac arloesi** | Effro ac ymatebol i'r angen am newid ac yn edrych am ddatrysiadau creadigol ac arloesol i broblemau.<br>Hyblyg ac yn annog creadigrwydd ymysg y bwrdd a'r weithrediaeth mewn ymateb i heriau heddiw a'r dyfodol. |
| **Dadansoddiad a gwneud penderfyniadau** | Deall pa benderfyniadau sydd ar gyfer y bwrdd.<br>Cydwybodol ac wedi paratoi'n dda.<br>Deall gwybodaeth ysgrifenedig a rhifyddol yn gywir, medru gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol.<br>Ceisio sicrwydd ac yn medru holi'n ddyfnach pan fo angen.<br>Medru ymarfer barn resymol, gwneud penderfyniadau a gweithredu. |
| **Sgiliau cyfathrebu** | Medru cyfleu syniadau cymhleth a barn yn eglur a chywir; gwrando'n astud; gofyn cwestiynau i sicrhau dealltwriaeth lawn.<br>Onest ac agored wrth gyfathrebu gydag eraill; hunan-ymwybodol ac yn medru cydnabod camgymeriadau neu ddiffygion yn ei berfformiad/pherfformiad ei hun. Parod i wahodd a derbyn adborth adeiladu.<br>Medru ennill cefnogaeth a dylanwad, gyda chraffter gwleidyddol. |



# SUT I WNEUD CAIS

I weld yr holl swyddi gwag cyfredol ar y Bwrdd ewch i:
www.careandrepair.org.uk/jobs

Os hoffech wneud cais am swydd Aelod Bwrdd Care & Repair Cymru, gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd at Adrian Lister, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol
Adrian.lister@careandrepair.org.uk

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd cysylltwch os gwelwch yn dda ât **Chris Jones**, Prif Weithredwr ar **07747803189**.



Care & Repair
Gofal a Thrwsio

www.careandrepair.org.uk

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig **(Rhif. 1163542)**
a chwmni cyfyngedig drwy warant **(Rhif. 09574555)**.